# Degawd o'r Cyfamod

Adolygiad o ddarpariaeth ac effaith deng mlynedd o Gyfamod y Lluoedd Arfog

**Dogfen Friffio**



Shared Intelligence

FiMT forces in mind trust

COMMUNITY FUND

ARMED FORCES COVENANT

# Degawd o'r cyfamod

Canfyddiadau allweddol

## 5 Achos allweddol o anfantais

- **Adleoli daearyddol**
- **Agweddau ar fywyd yng nghymuned y Lluoedd Arfog**
- **Agweddau ar bontio i fywyd y tu allan i'r Lluoedd Arfog**
- **Diffyg dealltwriaeth ymysg cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus**
- **Diffyg dealltwriaeth ymysg cymuned y Lluoedd Arfog**

## Mae'r gwasanaethau allweddol lle mae cymuned y Lluoedd Arfog dan yr anfantais mwyaf yn wahanol i bob carfan

### Gwasanaethu pobl a'u teuluoedd

- **Iechyd**
- **Addysg**

### Personél a theuluoedd sy'n pontio

- **Tai**
- **Cyflogaeth**

### Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

- **Iechyd**

## Seilwaith craidd

Yn yr *Ein Cymuned – Ein Cyfamod* gwreiddiol, datblygwyd seilwaith craidd a oedd yn pennu'r hyn roedd yn rhaid i gynghorau ei roi ar waith er mwyn cyflawni'r Cyfamod yn effeithiol.

**Yn gyffredinol, mabwysiadwyd y seilwaith craidd yn well ers 2016 ymysg awdurdodau lleol.**

Ers 2016, gwnaed y cynnydd arafaf ar gynlluniau gweithredu. Nid oes gan fwy na chwarter o gynghorau gynllun ar waith, a dim ond 40% o gynghorau sydd â chynllun gweithredu sy'n cael ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd.

Dim ond chwarter o'r cynghorau a wnaeth ymateb sydd o'r farn bod eu gwefan yn weithredol, o'i gymharu â mwy na thraean yn 2016.
Fodd bynnag, mae gan fwy o gynghorau wefannau nawr nac yn 2016 (97% o'i chymharu ag 81%).

**97%** o gynghorau oedd yn meddwl bod cael **swyddog pwynt cyswllt** yn helpu i leihau anfantais.

**98%** o gynghorau oedd yn meddwl bod cael **dull cydweithio a rhannu gwybodaeth** yn helpu i leihau anfantais.

**98%** o gynghorau oedd yn meddwl bod cymryd camau i **ganfod anghenion cymuned y Lluoedd Arfog** yn helpu i leihau anfantais.

## Effaith

**Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwybod nac yn mesur effaith y Cyfamod yn eu hardaloedd gwasanaethu nhw.**

Mae ymatebwyr arolwg **elusen** yn fwy tebygol o feddwl bod aelodau'r Lluoedd Arfog yn wynebu anfantais fwy nag ymatebwyr awdurdodau lleol.

# Argymhellion

Mae argymhellion yr adroddiad wedi'u strwythuro i gyfleu'r prif sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni'r Cyfamod: cynghorau fel cynullwyr a darparwyr gwasanaethau; y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol (GIG); y Llywodraeth; ac elusennau. Dengys yr argymhellion allweddol isod.

## Cyffredinol

- Dylai sefydliadau perthnasol, megis Y Weinyddiaeth Amddiffyn, Ymddiriedolaeth Forces in Mind, Swyddfa Materion Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog, Cymdeithas Llywodraeth Leol a GIG Lloegr (a'i gymheiriaid yng Nghymru a'r Alban) weithio ar y cyd i ystyried y ffordd orau o gymryd ymagwedd newydd at gasglu tystiolaeth o gyflawniad ac effaith y Cyfamod, yn seiliedig ar ddetholiad o ddangosyddion a amlinellwyd yn yr adroddiad.

## Cynghorau

- Dylai cynghorau adolygu eu hymagwedd at y Cyfamod yn sgîl y seilwaith craidd a ddiwygiwyd a'r pecyn cymorth cysylltiedig yn yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw penodol i fuddion gweithio mewn clystyrau i wneud y defnydd gorau o adnoddau a hyrwyddo cysoneb.

## Elusennau'r Lluoedd Arfog

- Yn cyfrannu at drefniadau partneriaeth leol a argymhellwyd yn y seilwaith craidd wedi'i ddiweddaru drwy weithredu fel cyfaill beirniadol, gan sicrhau bod cynghorau a darparwyr gwasanaethau eraill yn atebol yn lleol am gyflawni'r Cyfamod.

## Y GIG

- Yn Lloegr, dylid defnyddio sefydliad Systemau Gofal Integredig fel cyfle i ailgychwyn y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan ddarparwyr iechyd a chomisiynwyr i gryfhau darpariaeth y Cyfamod. Dylai'r broses ailgychwyn honno gynnwys camau gweithredu i gynyddu cyfranogiad mewn amrywiaeth o fentrau iechyd y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn a, ble a phan fo'n briodol, eu hestyn yn benodol er mwyn eu cymhwyso i holl aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog, nid yn unig i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog. Dylai hyn gynnwys, er enghraifft, achredu "meddygon teulu sy'n croesawu'r Lluoedd Arfog", nid yn unig meddygon teulu sy'n croesawu cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog ac, yng Nghymru a'r Alban, dylid ystyried creu cyfatebion i "meddygon teulu sy'n croesawu'r Lluoedd Arfog".

## Y Llywodraeth a'r Lluoedd Arfog

- Yn sicrhau bod y ffordd y caiff y ddyletswydd newydd ei chyflawni yn datblygu'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud i gyflawni'r Cyfamod. Mae hyn er mwyn osgoi iddi gael ei hystyried fel baich ychwanegol neu fod â chanlyniadau anfwriadol mewn perthynas â meysydd gwasanaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddyletswydd newydd.
- Cryfhau gwaith i helpu aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog ddeall y Cyfamod a'r hyn mae'n gallu ei wneud a'r hyn na all ei wneud i fynd i'r afael â'r anfantais bosib y gallant ei hwynebu mewn perthynas â gwasanaethau cyhoeddus.

# Gwybodaeth gefndirol am yr adroddiad

## Crynodeb

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig gwerthusiad o'r gweithgareddau a gynhelir gan wasanaethau cyhoeddus yn y DU i leihau anfantais bosib a brofir gan aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog o'u cymharu ag aelodau eraill o'r gymuned. Deng mlynedd wedi cyflwyniad Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae'n dod i'r casgliad bod amrywiaeth eang o dystiolaeth o lawer o weithgaredd ar lefelau gwahanol, gyda'r nod o leihau'r risg o anfantais.

Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, llacio'r gofyniad am gysylltiad lleol ar gyfer tai cymdeithasol, côd derbyn ysgolion ac achrediad meddygon teulu sy'n croesawu cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog. Fodd bynnag, mae arwyddion eraill o anfantais sy'n gofyn am sylw parhaus: maent yn cynnwys effaith adleoli rhieni ar blant mae eu rhieni'n gwasanaethu, effaith annibyniaeth cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog hŷn ar eu mynediad at ofal cymdeithasol i oedolion, a'r heriau sylweddol mae lleiafrif o gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn eu hwynebu wrth bontio allan o'r Lluoedd Arfog. Wrth wraidd mynd i'r afael â'r materion hyn yw'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth o'r materion a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r Cyfamod ymysg cynghorau, darparwyr gwasanaethau cyhoeddus a chymuned y Lluoedd Arfog mewn cyfuniad â phobl a sefydliadau'n lleisio barn yn uwch a bod yn fwy hyderus am eu cysylltiad â'r Lluoedd Arfog a'r camau sy'n cael eu cymryd i ddiwallu anghenion pobl sydd wedi gwasanaethu.

Canfu'r ymchwil hon hefyd mai prin yw'r monitro systematig o effaith y gweithgaredd hwn. Er mwyn datblygu'r gwaith a wnaed hyd yma, a chynnal cyflymder, mae angen pwyslais newydd ar rannu arfer da a datblygu dulliau llai manwl o fonitro'r effaith.

## Cyflwyniad

Gall galwadau bywyd yn y Lluoedd Arfog arwain at amgylchiadau a allai achosi anfantais i aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog mewn perthynas ag aelodau eraill o'r gymdeithas. Mae hyn yn cynnwys effaith adleoliadau aml ar deuluoedd a'u mynediad at wasanaethau cyhoeddus a phontio o'r Lluoedd Arfog i fywyd y tu allan i'r Lluoedd Arfog. I geisio lleihau'r anfantais bosib mae aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog yn ei hwynebu, cyflwynwyd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn 2011. Mae hyn yn canolbwyntio ar helpu aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog i "gael yr un mynediad at wasanaethau a nwyddau'r llywodraeth a masnachol ag unrhyw ddinesydd arall"[1].

Mae cyhoeddi'r ymchwil hon yn cyd-fynd â chyflwyniad, o dan Ddeddf y Lluoedd Arfog 2021, ddyletswydd statudol mewn perthynas â'r Cyfamod ym meysydd addysg, iechyd a thai. Mae'r ymchwil hon yn cynnwys y meysydd hyn, ond hefyd gwasanaethau plant, cyflogaeth a gofal cymdeithasol i oedolion.

## Canfyddiadau allweddol

Mae'r ymchwil yn nodi pum achos allweddol o anfantais sy'n wynebu aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog. Maent fel a ganlyn:

- Adleoli daearyddol.
- Agweddau ar fywyd yng nghymuned y Lluoedd Arfog.
- Agweddau ar bontio i fywyd y tu allan i'r Lluoedd Arfog.
- Diffyg dealltwriaeth am gymuned y Lluoedd Arfog ymysg cynghorau a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Diffyg dealltwriaeth o'r Cyfamod a'r cymorth cysylltiedig ymysg cymuned y Lluoedd Arfog.

1 Armed Forces Covenant: guidance and support - GOV.UK (www.gov.uk)

Mae'n archwilio'r achosion hyn a gweithgareddau darparwyr gwasanaethau cyhoeddus ac elusennau mewn perthynas â'r tair carfan yng nghymuned y Lluoedd Arfog. Mae gan bob carfan anghenion gwahanol ac maent yn wynebu lefelau gwahanol o risg mewn perthynas â gwahanol wasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig deall y rhain, ynghyd â'r achosion, wrth lunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag anfantais. Mae'r ffocws hwn sy'n canolbwyntio ar bobl yn ddefnyddiol wrth osgoi ymagwedd gul sy'n seiliedig ar wasanaethau ac sy'n cyd-fynd â galwad am esboniad clir o rôl a chyfraniad y Cyfamod ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

## Dadansoddiad o'r garfan

### Gwasanaethu pobl a'u teuluoedd

Y gwasanaethau cyhoeddus allweddol lle mae'r garfan yn wynebu anfantais yw iechyd ac addysg. Mae meysydd lle mae angen sylw yn cynnwys y posibilrwydd o estyn y cynllun meddygon teulu sy'n croesawu cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog i fod yn gynllun meddygon teulu sy'n croesawu aelodau'r Lluoedd Arfog a gweithredu er mwyn atal dysgu plant a phobl ifanc rhag dioddef o ganlyniad i straen a gorbryder sy'n cael eu hachosi gan adleoli rhiant. Yn ogystal, mae angen parhaus i weithio gyda chyflogwyr i sicrhau y gall gwŷr a gwragedd priod a phartneriaid gyrchu gwaith er gwaethaf y ffaith bod risg y cânt eu hadleoli i ardal wahanol. Mae cyflogaeth hefyd yn faes pwysig i filwyr wrth gefn. Gall yr ymrwymiad sy'n ofynnol ganddynt wrthdaro â galwadau cyflogaeth y tu allan i'r Lluoedd Arfog a gallant fod mewn perygl o anfantais fwy cymhleth oherwydd yr amgyffred y cânt eu hadleoli'n rheolaidd.

### Personél a theuluoedd sy'n pontio

Y gwasanaethau cyhoeddus allweddol lle mae'r garfan hon yn wynebu anfantais yw tai a chyflogaeth. Mae llacio'r gofyniad am gysylltiad â'r ardal leol ar gyfer tai cymdeithasol a gwaith Rheoli Perthynas Amddiffyn gyda chyflogwyr yn elfennau pwysig yn yr ymgyrch i leihau'r risg o anfantais yn y meysydd hyn. Mae gwaith y Tîm Gwasanaethau Pontio Amddiffyn yn bwysig wrth fynd i'r afael â heriau mae rhai pobl yn eu hwynebu yn cynnwys pobl sy'n gadael y Gwasanaeth yn gynnar a'r rhai hynny sy'n cael eu rhyddhau heb anrhydedd. Bydd y ffactorau pwysicaf wrth sicrhau bod cynghorau a darparwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn chwarae eu rôl wrth helpu pobl i reoli'r broses bontio yn cynnwys: cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion sy'n berthnasol ymysg darparwyr gwasanaethau cymorth a sicrhau bod gan bobl sy'n pontio allan o'r Lluoedd Arfog ddealltwriaeth gadarn o'u hawliau a'u cyfrifoldebau ac yn ystyried eu hunain fel aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog.

### Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog

Y maes gwasanaeth lle mae cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn wynebu'r risg fwyaf sylweddol yw anfantais o ran iechyd. Mae amrywiaeth eang o raglenni a mentrau I fynd i'r afael â'r risg honno, y mae eu heffeithiolrwydd yn dibynnu ar gynnydd parhaus yn nifer y darparwyr iechyd sy'n cymryd rhan ynddynt ac ar ddarparwyr a chyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn sicrhau bod aelodau cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu nodi ac y cymerir y camau priodol o ganlyniad. Rydym ni hefyd wedi archwilio i ba raddau mae cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog yn wynebu risg o anfantais mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion. Rydym ni wedi dod i'r casgliad bod risg o anfantais o ganlyniad o, er enghraifft, amharodrwydd cyn-aelod o'r Lluoedd Arfog i chwilio am gymorth. Serch hyn, mae diffyg tystiolaeth ynghylch graddau'r anfantais mewn perthynas â'r maes gwasanaeth hwn.

## Darparu'r seilwaith cymorth craidd

Argymhellodd yr adroddiad *Ein Cymuned – Ein Cyfamod* (2016) gwreiddiol y dylid rhoi seilwaith craidd ar waith i gynghorau a'u partneriaid er mwyn cyflawni'r Cyfamod yn effeithiol. Roedd yn cynnwys: unigolion allweddol, gan gynnwys cynghorydd hyrwyddo a swyddog arweiniol; cydweithio; cyfathrebu; a gweledigaeth ac ymrwymiad.

Mae'r ymchwil hon wedi dangos pwysigrwydd parhaus y seilwaith craidd ac mae mwy o gynghorau wedi mabwysiadu ei elfennau allweddol nac yn 2016. Mae atodiad i'r adroddiad hwn yn cynnig diweddariadau i'r seilwaith craidd, a'r pecyn cymorth cysylltiedig, i gyfleu anghenion heddiw.

Mae hyn yn cynnwys nodi sut mae nifer gynyddol o gynghorau'n ymuno â chlystyrau i rannu adnoddau i gyflawni'r Cyfamod ar draws ardal fwy. Yn yr un modd, mae Awdurdod Cyfunol Manceinion Fawr yn chwarae rôl gydlynol mewn perthynas â'r Cyfamod yn y gytref honno. Mae cydweithio'n bwysig yn enwedig mewn cyd-destun lle gall llai o gynghorau fforddio swyddog Cyfamod pwrpasol a lle mae llawer o'r swyddi hyn yn dibynnu ar gyllid allanol.

## Gogledd Iwerddon

Nid ydym ni wedi gallu archwilio i ba raddau mae sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Ngogledd Iwerddon yn ymwybodol o'r risg o anfantais sy'n wynebu aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog ac yn gweithredu i liniaru'r risg honno. O ganlyniad, mae ein gwaith wedi canolbwyntio'n bennaf ar rôl elusennau'r Lluoedd Arfog ac, yn benodol, y cymorth maent yn ei ddarparu i gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog. Mae'n werth nodi bod adroddiad blynyddol Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi'i gyfyngu yn yr un modd o ran ei sylw i Ogledd Iwerddon.

Canfuom oherwydd y cyd-destun sy'n wahanol iawn i Gymru, Lloegr a'r Alban (gan gynnwys y rhwystrau i fabwysiadu'r Cyfamod), mae strwythur a dulliau gwahanol ar waith I gefnogi aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn cynnwys defnyddio perthnasoedd cynnil, effeithiol y gellir ymddiried ynddynt i gyflwyno cymorth i gymuned y Lluoedd Arfog, ac mae natur hwnnw o reidrwydd yn amrywio o ardal i ardal. Roedd y bobl hynny sy'n rhan o'r system amgen hon o gymorth yn credu ei bod hi'n gweithio'n dda iawn i sicrhau y caiff aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog eu cefnogi'n effeithiol. Fodd bynnag, roedd gwerthuso'r system amgen hon o gymorth y tu allan i'n cwmpas, ac nid ydym ni wedi gallu dod i unrhyw gasgliadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth am ei heffeithiolrwydd na digonedd yr adnoddau sy'n ei chefnogi.

## Heriau wrth asesu effaith y Cyfamod

Mae'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd casglu data gwell am effaith, a lle bo'n bosib, defnyddio data presennol a/neu ddata a gasglwyd ar ddibenion eraill yn well. Mae hi wedi bod yn anodd casglu'r dystiolaeth angenrheidiol i ddod i gasgliadau pendant am effaith y Cyfamod.

Mae'r anhawster hwn yn broblem, gan gofio'r ymdrech sy'n cael ei hymroi i gyflawni'r Cyfamod a'r angen, os yn bosib, i werthuso effaith y ddyletswydd statudol newydd hon. Mae'r anhawster hwn yn deillio'n rhannol o ddiffyg data effaith, ond yn rhannol mae'n cyfleu'r pwysau cyffredinol cynyddol ar lawer o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys tai cymdeithasol, gofal cymdeithasol a'r system iechyd. Mae'r rhain wedi gwaethygu yn sgîl effaith pandemig Covid-19, gan ei gwneud hi'n fwyfwy anodd gwahaniaethu rhwng anfantais yn gyffredinol a'r anfantais a brofir gan aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog.

Felly, mae'r adroddiad yn cynnig ymagwedd newydd at gasglu tystiolaeth well o effaith y Cyfamod, gan ddefnyddio detholiad o ddangosyddion, ac mae'n argymell y dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn, FiMT, Cymdeithas Llywodraeth Leol (a'i chyfatebion yng ngweddill y DU), Swyddfa Materion Cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog (OVA), GIG Lloegr (a'i gyfatebion yng Nghymru a'r Alban) weithio ar y cyd i ystyried y ffordd orau o ddatblygu'r gwaith hwn. Gallai OVA hefyd chwarae rôl hollbwysig yma wrth osod a chydlynu gwaith casglu data ac ymagweddau mesur effaith ar draws y Llywodraeth.

**Rhagfyr 2022**

Shared Intelligence

Three Tuns House
109 Borough High Street
SE1 1NL

020 7756 7600

www.sharedintelligence.net
solutions@sharedintelligence.net

**Llun y clawr: Gweinyddiaeth Amddiffyn y DU © Hawlfraint y Goron 2021**